**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 18 Ionawr 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | A S Lewis |
| R V Smith | A H Stevens | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): V M Evans

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A Anthony a/ac E J King

---

### 91. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 99 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorydd Cyril Anderson gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 99 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdodau Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

3) Datganodd Huw Evans, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 99 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdodau Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

## 92. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2023.

## 93. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 94. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 95. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 96. Siarter Cwsmeriaid a Fframwaith Safonau Gwasanaeth.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol a Chadernid Ariannol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth a mabwysiadu'r fframwaith Siarter Cwsmeriaid a Safonau Gwasanaeth.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo a mabwysiadu'r Fframwaith Siarter Cwsmeriaid a Safonau Gwasanaeth a nodir yn Atodiad A o 1 Ebrill 2024.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwyr ac aelod perthnasol y Cabinet i wneud unrhyw fân newidiadau i'r Safonau fel sy'n briodol ac mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol (Dirprwy Arweinydd ar y Cyd) ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau (Dirprwy Arweinydd ar y cyd y Cyngor).

## 97. Polisi Cydgynhyrchu.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol a Chadernid Ariannol adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu'r Polisi Cydgynhyrchu.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu'r Polisi Cydgynhyrchu.

## 98. Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol y cyngor ar gyfer 2022/23 yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cyhoeddi cynnwys yr adroddiad.

## 99. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr awdurdod lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y Cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Brynhyfryd | Debbie Whyte |
| Ysgol Gynradd Newton | George Butterfield |
| Ysgol Gynradd Pontarddulais | Melissa Williams |
| Ysgol Gynradd Sea View | Y Cynghorydd Cyril Anderson |
| Ysgol Gynradd Tre Uchaf | Katie Griffiths |
| Ysgol Gyfun yr Olchfa | Y Cynghorydd Mary Jones |
| Ysgol Gyfun Pontarddulais | Y Cynghorydd Philip Downing |
| YGG Bryniago | Elen Jones |
| YGG Pontybrenin | Huw Evans |

## 100. Adroddiad dilynol am fwyafu'r ddarpariaeth EOTAS ar gyfer dysgwyr agored i niwed yn Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn argymell model cyflwyno diwygiedig ar gyfer Uned Cyfeirio Disgyblion Maes Derw (UCD) yn dilyn cyfnod ymgynghori. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio awdurdod dirprwyedig i roi'r newidiadau gofynnol ar waith yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

**Penderfynwyd:**

1) Cytuno ar y model newydd arfaethedig sydd wedi’i ddatblygu, yn dilyn cyfnod o ymgynghori â Phwyllgor Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion Maes Derw a rhanddeiliaid perthnasol eraill, fel model cyflwyno gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol yn y dyfodol.

2) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu i wneud y newidiadau gweithredol arfaethedig a chynnal unrhyw ymgynghoriadau staffio pellach sydd eu hangen ac adolygu a mireinio’r model yn barhaus fel rhan o fusnes fel arfer.

## 101. Cynlluniau ar gyfer Ysgolion Arbennig Abertawe yn y dyfodol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymgynghoriad a cheisiodd gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol i uno Ysgol Pen-y-Bryn ac Ysgol Crug Glas yn un Ysgol Arbennig ym mis Medi 2025 ac adleoli i ysgol newydd a adeiladwyd i'r diben gan gynyddu nifer y lleoedd o fis Ebrill 2028.

**Penderfynwyd:**

1) Cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gyfuno Ysgol Pen-y-bryn ac Ysgol Crug Glas yn un ysgol arbennig ym mis Medi 2025 ar safleoedd presennol a symud i ysgol newydd a adeiladwyd i'r diben gan gynyddu nifer y lleoedd o fis Ebrill 2028.

2) Bydd unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod hysbysu yn cael eu hystyried gan y Cabinet a bydd canlyniad y cynnig yn cael ei bennu yng nghyfarfod y Cabinet ar 18 Ebrill 2024.

## 102. Polisi Lleithder A Llwydni Ar Gyfer Eiddo'r Cyngor.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn darparu manylion ynghylch Polisi Lleithder a Llwydni arfaethedig newydd ar gyfer eiddo'r cyngor. Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru fod gan bob darparwr llety cymdeithasol bolisi o'r fath. Mae'r polisi'n amlinellu sut mae'r awdurdod yn atal lleithder a llwydni, sut mae'n ymateb i adroddiadau o leithder a llwydni a'r amserlenni ar gyfer ymchwilio i'r achosion hyn a'u trin.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Polisi Lleithder a Llwydni.

## 103. Cytundebau Isadeiledd Dinas Glyfar.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau, ac Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth menter y Fargen Ddinesig i lofnodi cytundebau sy’n galluogi Isadeiledd Dinas Glyfar ar oleuadau stryd a chelfi stryd eraill.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo llofnodi cytundebau i alluogi isadeiledd Dinas Glyfar ar oleuadau stryd a chelfi stryd eraill.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr ac aelod perthnasol y Cabinet i gyflwyno rhagor o isadeiledd yn dilyn y cam cychwynnol.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.42 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Ionawr 2024 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 23 Ionawr 2024 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 24 Ionawr 2024 |